

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
DYDDIAD	8 Tachwedd 2022
TEITL	Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr
AWDUR	Uwch Swyddog Harbyrau

1. Cyflwyniad.

- 1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau Aelodau'r Pwyllgor ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Abermaw ac i drafod materion sy'n ymwneud â rheolaeth a gweithrediad diogel yr harbwr.
- 1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad cryno er sylw'r Pwyllgor ar faterion harbwr ar gyfer y cyfnod o fis Mawrth 2022 i fis Hydref 2022, ac i dderbyn adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

2. Angorfeydd Abermaw a Chofrestru Cychod.

- 2.1 Cafwyd gostyngiad yn nifer yr angorfeydd a ddefnyddir dros y blynyddoedd diwethaf. Yn 2022, roedd 64 o gychod ar angorfeydd blynyddol yn yr harbwr. Mae hyn yn cymharu â 54 o gychod ar angorfeydd yn 2021 ac mae'n galonogol bod ychydig o gynnydd wedi bod yn y cyfanswm o'i gymharu â 2021.
- 2.2 Tra bod harbyrau eraill yng Ngwynedd wedi adlewyrchu gostyngiad bychan yn nifer y cwsmeriaid angorfeydd, mae'n braf nodi cynnydd yn nifer cwsmeriaid harbwr Abermaw eleni.
- 2.3 Bellach mae'n ofynnol i berchnogion cychod pŵer a badau dŵr personol sy'n bwriadu lansio yng Ngwynedd gofrestru eu badau pŵer ar-lein trwy Wefan Cyngor Gwynedd. Y tymor hwn, manteisiodd 2380 o berchnogion ar y cyfle i gofrestru eu badau pŵer ar-lein. Gan fod gwyliau tramor wedi gweld twf aruthrol eleni, yn enwedig ar ôl nifer o flynyddoedd lle'r oedd cyfyngiadau ar deithio, efallai bod hyn yn egluro rhywfaint ar pam y gwelwyd gostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- 2.4 Yn ogystal â'r ffigyrau uchod, cofrestrwyd 136 o fadau pŵer ar bapur gan bobl sy'n ymweld â'r swyddfeydd morwrol amrywiol ledled Gwynedd. Hefyd, cofrestrwyd 82 cwch gyda pheiriant o dan 10 hp.

3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd.

- 3.1 Mae'r Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Ei nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd morol porthladdoedd. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.

Mae'r Cod yn cynrychioli arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.

- 3.1.1 Mae'r Gwasanaeth yn adolygu'r Cod Diogelwch Morol yn rheolaidd ar gyfer yr harbyrau dan ei awdurdodaeth er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio'n llawn gyda gofynion presennol y Cod. Fel rhan o'r broses adolygu, mae'n angenrheidiol derbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol ac i dderbyn sylwadau'n rheolaidd ar ei gynnwys, yn benodol o ran perthnasedd gyda gweithgarwch yr harbwr, cymhorthion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol yn Harbwr Abermaw.

4. Materion Staffio.

- 4.1 Yn dilyn ymadawiad aelod allweddol o staff Abermaw mae'r Gwasanaeth wedi penodi Harbwrfeistr newydd i'r swydd yn Abermaw. Dechreuodd yr Harbwrfeistr a benodwyd yn ei swydd ar y 1 Awst eleni. Tan y penodiad hwn, yr harbwrfeistr cynorthwyol oedd yn rheoli'r harbwr drwy gydol y tymor gan gyflawni holl swyddogaethau'r harbwrfeistr ar sail dros dro.
- 4.2 Bu i'r harbwrfeistr cynorthwyol, a fu gyda'r Gwasanaeth Morwrol ers nifer o flynyddoedd ar ôl cychwyn ar ei wasanaeth fel Swyddog Traeth, adael y swydd ar 30 Medi. Roedd yr harbwrfeistr cynorthwyol yn aelod poblogaidd o staff gyda chydweithwyr a chwsmeriaid fel ei gilydd. Mae bellach yn cychwyn ar antur newydd yn Awstralia. Dymuna'r Gwasanaeth ddiolch i'r harbwrfeistr cynorthwyol am ei ymroddiad i'r gwasanaeth ac am ei ymrwymiad i'w waith.
- 4.3 Rhagwelir y bydd swydd harbwrfeistr cynorthwyol Abermaw yn cael ei hysbysebu yn y flwyddyn newydd, gyda'r Gwasanaeth yn gallu galw ar staff a leolir yn harbyrau Porthmadog ac Aberdyfi i gynorthwyo gyda'r gwaith yn harbwr Abermaw pan fo angen. Mae cynorthwydd harbwr dros dro wedi ei benodi i'r swydd dros y gaeaf.

5. Materion Ariannol.

- 5.1 Darperir crynodeb bras o gyllidebau'r harbwr a'r sefyllfa ariannol gyfredol hyd at ddiwedd y chwarter gan y Prif Swyddog Morwrol.
- 5.2 Yn ystod y cyfnod hwn, roedd angen ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr isod:
- Cynnal a chadw cymhorthion mordwyo a goleufeydd
 - Archwilio a chynnal a chadw angorfeydd y Cyngor
 - Cynnal a chadw a gweithredu cwch patrôl yr Harbwr a'r ôl-gerbyd cysylltiedig
 - Cynnal a chadw tiroedd a meinciau
 - Cynnal a chadw offer a chyfarpar

5.3 Ffioedd a Thaliadau. 2023/24.

O ran ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer Harbwr Abermaw, ynghyd â ffioedd lansio Cychod Pŵer a Badau Dŵr Personol ar gyfer tymor 2023/24, mae'r gwasanaeth yn bwriadu addasu'r ffioedd yn unol â chyfradd chwyddiant. Ar hyn o bryd, nid yw'r Gwasanaeth wedi derbyn cadarnhad o'r cyfraddau y dylai eu gweithredu.

6. Adroddiad yr Harbwrfeistr.

Bydd y Gwasanaeth yn rhoi crynodeb o'r materion Mordwyo a Gweithredol a weithredwyd ac a gododd yn ystod y cyfnod rhwng mis Mawrth 2022 a mis Hydref 2022, yn cynnwys y misoedd hynny, a chan gynnwys materion cynnal a chadw.